



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Yr Esgob
Lôn yr Ysgol
Caerwys
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 5AD**

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Yr Esgob

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Ysgol Yr Esgob yng Nghaerwys yn Sir y Fflint. Mae 56 o ddisgyblion ar y gofrestr, rhwng tair ac un ar ddeg oed, gan gynnwys pedwar disgybl meithrin rhan-amser. Mae gan yr ysgol dri dosbarth oedran cymysg.

Mae tua 11% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 19%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 13% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ffigur hwn ymhell islaw cyfartaledd Cymru, sef 21%. Mae bron pob un o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Cynhaliwyd yr arolygiad diweddaraf o'r ysgol ym mis Mai 2011. Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd ym mis Medi 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yn Ysgol Yr Esgob lefelau lles rhagorol ac agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau ac mae ganddynt ddylanwad cryf iawn ar faterion sy'n effeithio arnynt yn yr ysgol ac yn y gymuned leol fel ei gilydd. Mae hyn yn datblygu eu hunan-barch a'u hyder yn effeithiol ac yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da dros gyfnod yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu. Ceir darpariaeth ragorol ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion. Mae ystod o weithgareddau sydd wedi'i chynllunio'n ofalus yn bodloni anghenion bron pob un o'r dysgwyr yn arbennig o dda, gan eu helpu i lwyddo a mwynhau pob agwedd ar fywyd ysgol. Mae ansawdd cyffredinol yr addysgu'n dda, ac mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau disgyblion yn effeithiol. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel, mae'n darparu arweinyddiaeth eithriadol o dda ac yn gweithio'n dda gyda chymuned yr ysgol i roi gweledigaeth hynod effeithiol ar gyfer gwella ar waith. O ganlyniad, caiff prosesau gwella'r ysgol effaith gadarnhaol ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion a sicrhau eu lefelau lles uchel. Mae diwylliant cryf o waith tîm yn galluogi staff i ffynnu yn amgylchedd yr ysgol.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Rhagorol
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Rhagorol
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Rhagorol

Argymhellion

A1 Sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn elwa'n rheolaidd ar ystod lawn y profiadau dysgu yn y cyfnod sylfaen

A2 Rhannu arfer orau'n fwy effeithiol ar draws yr ysgol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith o ran effaith ei darpariaeth i ddatblygu hunan-barch, hyder a llais disgyblion ar fywyd a gwaith yr ysgol, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau sydd ychydig uwchlaw'r rheiny sy'n ddisgwylidig ar gyfer eu hoedran. Gwnânt gynnydd da ac maent yn cyflawni'n dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn o'u manau cychwyn unigol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau siarad da wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol. Maent yn siarad yn hyderus am eu gwaith, er enghraifft wrth esbonio nodweddion cestyll. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3 yn siarad yn glir, er enghraifft i ddisgrifio pethau sy'n arbennig iddyn nhw. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwrando'n barchus ar blant a phobl eraill. Maent yn siarad yn hyderus ac yn defnyddio ystod dda o eirfa. Er enghraifft, maent yn disgrifio pwysigrwydd nodweddion lleol fel 'Tŷ Cloch' wrth gyflwyno eu fersiwn eu hunain o 'Groniclau Caerwys'.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel darllenwyr. Maent yn trin a thrafod llyfrau'n hyderus ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o nodweddion llyfrau ffeithiol a ffuglen. Defnyddiant ystod dda o strategaethau i ddatrys geiriau a chywiro eu hunain pan fyddant yn camddarllen geiriau. Mae disgyblion sy'n fwy abl yn darllen yn rhugl gyda lefelau da o fynegiant a dealltwriaeth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau darllen yn dda mewn gwersi ac yn defnyddio strategaethau fel brasddarllen a bwrw golwg i nodi gwybodaeth allweddol o destun yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu a chymhwyso eu medrau ysgrifennu'n dda wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sillafu geiriau cyffredin yn gywir ac yn gwneud cynigion synhwyrol i sillafu geiriau sy'n fwy heriol. Maent yn cyflwyno eu gwaith yn ddestlus ac yn defnyddio atalnodi sylfaenol fel priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir. Maent yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu'n dda yn eu gwaith testun, er enghraifft i ysgrifennu taflenni gwybodaeth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn creu darnau estynedig o waith at ystod eang o ddibenion. Maent yn cynllunio eu hysgrifennu'n dda ac yn ailddrafftio eu gwaith yn briodol, er enghraifft i wella dewisiadau geirfa. Maent yn ysgrifennu'r un mor dda mewn gwersi Saesneg ac mewn gwaith testun, er enghraifft wrth ysgrifennu dadl gytbwys am fanteision ac anfanteision cael fferm wynt yn yr ardal.

Ar draws yr ysgol, ond yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau mathemateg yn dangos gwelliant diweddar nodedig. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werth lle. Maent yn gweithio'n hyderus gyda rhif ac yn defnyddio eu medrau mathemategol a rhifiadol yn llwyddiannus yn eu gwaith testun. Er enghraifft, mae disgyblion yn canfod y costau am de parti'r Hetiwr Hurt ac yn mesur pellterau ar fap yn gywir gan ddefnyddio unedau mesur safonol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau rhif da ac maent yn cymhwyso'r rhain yn dda yn ôl safonau sy'n gweddu i'w gallu unigol. Maent yn cyfuno gweithrediadau rhif yn effeithiol i ddatrys problemau aml-gam. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio

eu dealltwriaeth o ganrannau yn llwyddiannus i gyfrifo'r elw y gallai ffermwr ei wneud o werthiannau.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn datblygu'n dda. Mae llawer ohonynt yn defnyddio TGCh at ystod addas o ddibenion, er enghraifft i greu graffiau am eu hoff atyniadau yn Llandudno. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan lawer ohonynt fedrau TGCh rhagorol. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn gyson yn yr ysgol ac wrth wneud gwaith cartref i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yn ysgrifennu codau i drefnu'r ffordd y mae goleuadau'n fflachio ar gar heddlu, yn creu ac archwilio cronfeydd data am siocled Masnach Deg ac yn cyflwyno dyddiaduron fel cofnodion fideo trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn caneuon ac yn ymateb yn dda i gwestiynau, er enghraifft i nodi gwahanol rifau yn Gymraeg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu medrau siarad a gwranddo, darllen ac ysgrifennu. Mae ganddynt ystod eang o eirfa ac yn ynganu geiriau'n dda. Defnyddiant yr iaith yn hyderus mewn sesiynau Cymraeg, er enghraifft wrth drefnu chwarae 'pêl droed yn y parc' neu wrth esbonio'r hyn y maent wedi'i wneud dros y penwythnos. Mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod addas o batrymau brawddeg yn amserau'r presennol, y gorffennol a'r dyfodol. Maent yn ysgrifennu gyda lefelau addas o annibyniaeth, er enghraifft i greu deialogau a darnau disgrifiadol amdanyn nhw eu hunain, ac yn darllen y darnau gwaith hyn yn rhugl.

Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr hyderus a brwdfrydig sy'n mwynhau eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn cymryd rhan yn llawn mewn gwersi, yn dal ati i ganolbwyntio'n bwrpasol ac yn dyfalbarhau'n dda pan fyddant yn gweld tasgau'n heriol. Gwnânt gynnydd cryf o ran dysgu gweithio â diben a gwydnwch. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn dangos penderfyniad i lwyddo wrth adeiladu simnai ar gyfer blaidd mawr drwg.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus, yn enwedig pan fyddant yn gweithio ar heriau yn y cyfnod sylfaen ac yn gwneud gwaith ymchwil sy'n gysylltiedig â'u gwaith am fynyddoedd yng nghyfnod allweddol 2. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o ba mor dda y maent wedi cyflawni mewn gwersi trwy gymryd rhan yn rheolaidd mewn hunanasesu. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn siarad yn wybodus am y modd y mae marcio eu gwaith yn eu helpu i ddatblygu eu medrau. Mae llawer ohonynt yn defnyddio gwaith cartref yn llwyddiannus iawn i gefnogi eu dysgu.

Mae safon uchel yr ymddygiad yn sicrhau amgylchedd tawel a phwrpasol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn parchu safbwyntiau pobl eraill, yn gweithio'n dda fel rhan o grŵp neu gyda phartner, ac yn mwynhau rhannu eu meddyliau a'u syniadau ag ymwelwyr.

Mae disgyblion yn cyfrannu'n frwdfrydig at eu dysgu eu hunain. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn cymryd rhan mewn sesiwn wythnosol i awgrymu syniadau i'w cynnwys wrth gynllunio heriau ac yn cyflwyno awgrymiadau synhwyrol iawn ynglŷn â sut gall y gweithgareddau hyn gefnogi eu gwaith testun. Mae

disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyflwyno eu syniadau diddorol ar gyfer ymchwiliadau gwyddoniaeth trwy'r llwyfan digidol. Mae hyn yn rhoi dylanwad cryf iddynt dros beth a sut maent yn ei ddysgu ac yn cefnogi lefelau uchel iawn o ymgysylltu a chyfranogi mewn dysgu.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion ymwybyddiaeth ddatblygedig o bwysigrwydd ffordd iach o fyw. Maent yn deall sut i aros yn ddiogel, gan gynnwys pan fyddant yn defnyddio'r rhyngwyd. Maent yn gwybod at bwy i droi os byddant yn ddigalon neu'n pryderu. Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion gyfle i wneud ymarfer corff, er enghraifft wrth gwblhau'r filltir ddyddiol ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau difyr gan ddefnyddio offer o'r sied chwarae. Mae llawer ohonynt yn mynychu clybiau ar ôl yr ysgol sy'n cefnogi ffordd iach o fyw, gan gynnwys pêl-rwyd, pêl-droed ac aml-fedrau ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen.

Mae gan ddisgyblion lais eithriadol o gryf yn yr ysgol, yn enwedig trwy eu rhan yn y cyngor ysgol, y pwyllgor eco ac yn eu rolau fel arweinwyr digidol. Mae disgyblion o bob grŵp yn cymryd eu cyfrifoldebau'n ddifrifol iawn ac yn cyfrannu'n hynod effeithiol at fywyd yr ysgol. Mae cyngor ysgol yn hysbysu disgyblion eraill yn llawn am ei waith trwy gyflwyniadau mewn gwasanaethau ac mewn cyfarfodydd cyngor dosbarth. Mae'n ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau. Er enghraifft, mae wedi cymryd rhan mewn teithiau dysgu i edrych ar safon y Gymraeg a'r gwahanol ffyrdd y mae disgyblion yn dysgu. Mae'r cyngor ysgol yn defnyddio trafodaethau a holiaduron yn rheolaidd i ofyn barn disgyblion eraill. Mae'n defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i wneud gwelliannau yn yr ysgol. Er enghraifft, ar ôl cyflwyno siediau chwarae, gofynnodd eu barn ar yr offer oedd ar gael. Awgrymodd y dylid tynnu rhywfaint o'r offer oddi yno, ac ychwanegu eitemau eraill, mwy poblogaidd. Mae gwaith presennol yn cynnwys y cyngor yn gofyn barn disgyblion ar y cynllun mathemateg newydd. Mae'r 'Criw Cymraeg' a sefydlwyd yn ddiweddar yn cael effaith gadarnhaol ar faint o Gymraeg a siaredir mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol.

Mae gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ymwybyddiaeth eithriadol o ddatblygedig o degwch, cydraddoldeb a hawliau plant. Maent yn siarad yn wybodus am y cysylltiad rhwng hawliau a chyfrifoldebau. Mae aelodau o'r cyngor ysgol wedi defnyddio'r gwaith ar hawliau plant i ddiweddarau'r polisi ymddygiad a rheolau'r ysgol.

Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, datblygant ddealltwriaeth eithriadol o glir o bwysigrwydd cefnogi eu cymuned a lles pobl eraill. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 wedi ysgrifennu llythyrau i gefnogi cais llywodraethwr y cyngor tref am fwy o offer chwarae ar gyfer y pentref. Maent yn llunio dadleuon tra ystyriol a chytbwys o blaid ac yn erbyn y cynllun arfaethedig i adeiladu fferm wynt ar dir lleol a defnyddiant ystod o ffynonellau tystiolaeth i greu taflen wybodaeth ar gyfer pobl sy'n ymweld â'r eglwys leol. Mae disgyblion yn codi symiau sylweddol o arian yn rheolaidd trwy gymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau elusennol, fel taith gerdded nodedig, bore coffi Masnach Deg a gwerthu eitemau y maent wedi'u gwneud yn y siop leol.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu'n dda. Mae pob un o'r athrawon yn gosod disgwyliadau uchel ac yn herio disgyblion o bob gallu i gyflawni'n dda a dod yn ddysgwyr hyderus. Mae athrawon a staff cymorth yn sefydlu perthnasoedd gweithio cynhyrchiol gyda disgyblion, a cheir hinsawdd gadarnhaol ar gyfer dysgu ar draws

pob dosbarth. Defnyddiant ystod addas o dechnegau i gynnal diddordeb disgyblion, er enghraifft trwy annog disgyblion yn rheolaidd i drafod agweddau ar eu gwaith mewn parau a grwpiau. Mae athrawon yn sicrhau bod bron pob un o'r gwersi'n symud yn gyflym. Maent yn rhannu amcanion clir ar gyfer eu gwersi gyda disgyblion i ddarparu ffocws clir ar gyfer dysgu. Mae oedolion yn holi disgyblion yn effeithiol i ymestyn eu dysgu ac yn rhoi adborth defnyddiol iddynt yn ystod gwersi. Mae sylwadau ysgrifenedig athrawon yn benodol, yn dangos i ddisgyblion beth maent wedi'i wneud yn dda ac yn gwneud awgrymiadau addas ar gyfer gwella. O bryd i'w gilydd, mae oedolion yn arwain y dysgu'n ormodol. Yn yr achosion hyn, mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i esbonio eu hatebion neu wneud dewisiadau ynglŷn â beth y maent yn ei ddysgu, a sut.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys ac ysgogol sy'n bodloni gofynion statudol. Mae athrawon yn darparu cyd-destunau diddorol i ddisgyblion ar gyfer dysgu trwy gyfres gynlluniedig o destunau a themâu. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am 'Farchogion a Chestyll' ym Mlwyddyn 2 a hanes lleol Caerwys yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r themâu hyn yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda ac yn eu cymell i ddysgu'n llwyddiannus. O fewn y testunau hyn, mae athrawon yn cynllunio'n llwyddiannus i ymgorffori gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd, gan sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i gymhwyso eu medrau i safon dda mewn ystod werthfawr o gyd-destunau. Er enghraifft, caiff disgyblion gyfleoedd i gofnodi a dehongli data gan ddefnyddio amrywiaeth o siartiau a graffiau yn eu gwaith gwyddoniaeth a'u gwaith testun. Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth ragorol i ddatblygu medrau TGCh disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Mae hyn yn amlwg yn cyfleoedd a gaiff disgyblion i ddefnyddio eu medrau digidol i gefnogi, ymestyn a chyflwyno eu dysgu ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Mae staff yn cynnig ystod eang o glybiau allgyrsiol gwyddoniaeth, garddio ac arweinwyr digidol. Mae'r rhain yn datblygu medrau a diddordebau disgyblion mewn ystod o feysydd. Mae ystod eang o ymyriadau a rhaglenni cymorth yn bodloni anghenion disgyblion unigol yn dda iawn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae athrawon yn cynllunio ystod gyffrous o weithgareddau i ddatblygu medrau disgyblion yn yr ardaloedd dan do ac awyr agored, fel yr 'Ysgol Goedwig'. Enghraifft nodedig yw pan fyddant yn ymchwilio sut i 'arbed ychydig bach o'r gaeaf' trwy inswleiddio rhew â deunyddiau naturiol amrywiol. Mae gan athrawon ddealltwriaeth dda o addysgeg y cyfnod sylfaen, ac at ei gilydd, maent yn gweithio'n dda yn unol â'r egwyddorion hyn. Er enghraifft, ceir cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion a chyfleoedd ar gyfer gwaith annibynnol wedi'i arwain gan ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion y cyfnod sylfaen bob amser yn gallu manteisio'n rheolaidd ar ystod lawn y profiadau yn y cyfnod sylfaen. O bryd i'w gilydd, mae hyn yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i ddysgu'n annibynnol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn darparu cyd-destunau gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn. Mae ystod werthfawr o gyfleoedd cyfoethogi yn dal dychymyg disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn mwynhau ac yn dysgu oddi wrth ymweliadau â'r 'Profiad Rhufeinig' yng Nghaer, a chestyll lleol. Mae ymwelwyr rheolaidd o'r gymuned yn cefnogi'r cwricwlwm yn dda hefyd. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn siarad yn frwdfrydig am gyflwyniad a gawsant ar hanes siocled.

Mae darpariaeth dda i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Mae'r ysgol yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg ymhlith ei disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn eithriadol o frwdfrydig wrth gyflwyno eu gwaith Cymraeg trwy lwyfan dysgu digidol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon a chynorthwyr addysgu yn fodolau rôl da o ran iaith. Mae athrawon yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant, hanes a daearyddiaeth Cymru yn dda. Er enghraifft, maent yn trefnu ymweliadau preswyl addysgiadol â Chaerdydd ac yn cynllunio gwaith testun am Eryri.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd hynod gefnogol a gofalgar lle caiff yr holl ddisgyblion eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae trefniadau i olrhain cynnydd disgyblion yn eithriadol o dda. Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth hon yn arbennig o dda i gynllunio'i darpariaeth. Mae hyn yn galluogi bron pob un o'r disgyblion i gyflawni'n dda.

Mae staff yn effeithiol o ran nodi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar iawn. Defnyddiant ystod eang o systemau i gynorthwyo disgyblion a sicrhau bod cymorth ychwanegol yn hynod hyblyg ac yn gweddu'n agos iawn i anghenion pob disgybl. Mae staff yn gweithio'n agos gydag ystod eang o asiantaethau arbenigol ac yn ymgymryd â hyfforddiant eang i'w galluogi i ddarparu cymorth rhagorol ar gyfer dysgwyr. Mae'r ddarpariaeth effeithiol hon yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau, gydag ychydig iawn ohonynt yn unig yn parhau i fod angen cymorth ychwanegol yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad emosiynol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae hyn yn sicrhau bod gan ddisgyblion lefelau uchel o hunan-barch a'u bod yn barod i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd addysgol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd i ddathlu eu cyflawniadau mewn gwasanaethau wythnosol a defnyddio 'Unigolyn yr wythnos' ('VIP of the week'), pan fydd disgyblion dethol yn dod ag eitemau sy'n bwysig iddynt er mwyn eu dangos i bobl eraill. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn defnyddio llawer o raglenni hynod arbenigol fel gwasanaeth cwnsela ac amser anogaeth i gynorthwyo unigolion.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref â rhieni. Mae cyfathrebu hynod effeithiol trwy gylchlythyrau wythnosol a gwefan yr ysgol yn darparu gwybodaeth werthfawr i rieni am ddatblygiadau a digwyddiadau ac yn eu galluogi i gynorthwyo eu plentyn gartref. Er enghraifft, mae athrawon yn gwahodd rhieni i'r ysgol yn rheolaidd i gael gwybod am destunau eu plentyn, a dulliau o addysgu TGCh, darllen a mathemateg. Mae grŵp o rieni a neiniau a theidiau yn mynychu ac yn elwa ar sesiynau wythnosol i'w cynorthwyo i ddysgu Cymraeg tra bydd rhai eraill yn rhoi cymorth gwerthfawr i'r ysgol trwy weithio yn ei gardd. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gyda rhieni i sicrhau lefelau uchel o bresenoldeb disgyblion yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn annog disgyblion i yfed dŵr trwy gydol y dydd a gwneud dewisiadau iach amser byrbryd ac amser cinio. Mae staff yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau chwarae, gan gynnwys llawer yn y gymuned ehangach, fel gemau pêl-rwyd, rygbi tag a phêl-droed i ferched. Caiff yr holl ddisgyblion weithdai buddiol ar hylendid bwyd.

Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu medrau personol, moesol a chymdeithasol, yn enwedig trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau penodol fel wythnos gwrthfwlio a diwrnod rhyngrwyd mwy diogel. Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth gref i helpu disgyblion i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cymryd rhan mewn prosiect llwyddiannus i herio stereoteipio.

Mae staff yn cynllunio cyfleoedd eang i ddatblygu ymwybyddiaeth ddiwylliannol disgyblion, er enghraifft ymweliadau preswyl ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n cynnwys drama a gwehyddu. Caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu medrau creadigol eu hunain trwy weithio gydag artistiaid lleol a chynhyrchu gwaith yn arddull Kandinsky, er enghraifft. Mae'r ysgol yn defnyddio'r celfyddydau creadigol yn llwyddiannus i wella safonau disgyblion mewn llafaredd ac ysgrifennu. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio gweithdai drama i wella eu hysgrifennu naratif. Mae staff yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau yn yr ysgol ac ar gyfer y gymuned ehangach. Mae pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn y cynhyrchiad Nadolig sydd o ansawdd da, sy'n gwella eu hyder a'u hunan-barch.

Mae ethos cynhwysol a chefnogol yr ysgol, ynghyd â llawer o agweddau ar y cwricwlwm, yn darparu cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion moesol. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu dealltwriaeth glir o chwarae teg, pwysigrwydd gonestrwydd ac agweddau ar gydraddoldeb. Mae staff yn cefnogi datblygiad ysbrydol disgyblion yn dda trwy'r ethos ysgol gyfan a chynnwys amser myfyrio yn y gwasanaeth ysgol gyfan bob dydd.

Mae staff yn cynorthwyo disgyblion yn dda yn academaidd ac yn emosiynol, i sicrhau eu bod yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn llwyddiannus. Mae'r trefniadau'n cynnwys disgyblion yn cymryd rhan mewn rhaglen strwythuredig i ddatblygu cyfeillgarwch cryf. Mae ymweliad preswyl ar y cyd â disgyblion Blwyddyn 6 o ddwy ysgol fach gyfagos yn galluogi disgyblion i ehangu eu grŵp ffrindiau cyn trosglwyddo.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol hynod effeithiol ac yn gosod disgwyliadau eithriadol o uchel ar gyfer gwaith yr ysgol. Mae'n gweithio'n llwyddiannus gyda disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr i ddatblygu diwylliant ac ethos tîm cadarnhaol. Gyda'i gilydd, mae cymuned yr ysgol yn rhoi gweledigaeth hynod effeithiol ar waith ar gyfer gwella'r ysgol yn barhaus. Dros gyfnod, mae hyn wedi trawsnewid yr ysgol o fod yn sefydliad sy'n tanberfformio i fod yn gymuned ddysgu fywiog. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni safonau da yn eu gwaith ac yn dangos lefelau lles rhagorol.

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn drylwyr a chynhwysfawr. Maent yn cynnwys ystod addas o weithgareddau fel arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae pob un o'r staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at weithgareddau hunanarfarnu. Er enghraifft, mae disgyblion yn arfarnu effaith dull o addysgu mathemateg a gyflwynwyd yn ddiweddar ac mae llywodraethwyr yn monitro data perfformiad yn drylwyr i wneud yn siŵr fod disgyblion yn gwneud y cynnydd y

dylent. Mae'r prosesau hyn yn sicrhau bod gan randdeiliaid allweddol ddealltwriaeth gref o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae'r ysgol yn defnyddio gwybodaeth o weithgareddau hunanarfarnu yn llwyddiannus i nodi'r blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer gwella, fel codi safonau disgyblion mewn mathemateg.

Mae prosesau gwella'r ysgol yn eithriadol o dda. Mae arweinwyr yn datblygu a gweithredu cynlluniau gwella sy'n cynnwys targedau heriol ac ystod gynhwysfawr o gamau gweithredu i sicrhau gwelliannau. Mae'r rhain yn cynnwys profiadau dysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar gyfer staff. Er enghraifft, mae cyfres o gyrsiau hyfforddi hynod arbenigol ar gyfer cynorthwywyr addysgu yn arwain at ymyrraeth gynnar a darpariaeth o ansawdd uchel iawn ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Caiff staff ar bob lefel effaith nodedig ar wella darpariaeth yr ysgol; er enghraifft, mae arweinyddiaeth mewn TGCh yn sicrhau darpariaeth hynod effeithiol yng nghyfnod allweddol 2 ac mae arweinyddiaeth darpariaeth yr 'Ysgol Goedwig' yn galluogi disgyblion i gael profiadau dysgu gwerthfawr yn yr awyr agored. Ceir arweinyddiaeth lwyddiannus i godi safonau defnydd disgyblion o'r Gymraeg. Mae'r dosbarthiad effeithiol hwn o gyfrifoldebau arwain yn galluogi'r ysgol i wneud cynnydd llwyddiannus yn gyson yn erbyn nodau gwella allweddol. Fodd bynnag, er bod gan yr ysgol yr arbenigedd ymhlith y staff, nid yw arweinwyr bob amser yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i rannu arfer orau ar draws pob dosbarth. Mae hyn yn arwain at amrywioldeb yn ansawdd ychydig iawn o agweddau ar y ddarpariaeth.

Mae uwch arweinwyr yn herio unrhyw achosion o danberfformio yn briodol ac yn defnyddio prosesau rheoli perfformiad yn dda i gefnogi gwella'r ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio'i hadnoddau'n dda. Mae'n defnyddio athrawon a chynorthwywyr addysgu'n effeithiol i godi safonau, er enghraifft i wella safonau ysgrifennu yng nghyfnod allweddol 2. Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid sydd ar gael yn ddoeth. Maent yn dyrannu cyllid addas ar gyfer blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Er enghraifft, maent yn cydweithio ag ysgolion eraill i leihau costau adnoddau a hyfforddiant ar gyfer staff. Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid grant o'r grant datblygu disgyblion yn briodol i gynorthwyo dysgwyr dan anfantais i wella eu medrau.

Mae llywodraethwyr yn gwneud cyfraniad hynod effeithiol at fywyd a gwaith yr ysgol. Defnyddiant eu medrau yn arbennig o dda i gefnogi a herio'r ysgol, er enghraifft i arfarnu'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles disgyblion. Mae llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gasglu barn disgyblion a monitro ansawdd yr arweinyddiaeth a'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae llywodraethwyr yn cynnal teithiau dysgu gyda disgyblion sy'n arweinwyr digidol i arfarnu cynnydd o ran codi safonau TGCh. Yn benodol, mae llywodraethwyr yn dangos dealltwriaeth gref iawn o wybodaeth am gynnydd disgyblion. Defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i herio'r ysgol i wella deilliannau ar gyfer disgyblion.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/04/2018